# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p4): 31 Ionawr 2008

### Cyfeirnod y ddeiseb P-03-098: Newid y ddeddfwriaeth yn ymwneud ag enwi  ysgolion

### Geiriad y ddeiseb: Mae geiriad y ddeiseb i'w weld ym mhapur PET(3) 02-08 (p4A).

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon.

### Cefndir

Mae'r ddeiseb hon yn cefnogi argymhelliad a wnaed gan yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies mewn llythyr a gyflwynodd i'r Pwyllgor i gefnogi deiseb flaenorol - y ddeiseb yn ymwneud ag enwi Ysgol Gyfun Garth Olwg (P-03-071).

Argymhellodd yr Arglwydd Prys-Davies y dylid newid y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau mai corff llywodraethau unrhyw ysgol sydd â'r gair olaf ynghylch enwi'r ysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2008, a chytunodd i anfon copi ohono ymlaen at y Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gan ofyn i'r Gweinidog ystyried y llythyr hwn wrth lunio unrhyw ganllawiau i'w dosbarthu yn y dyfodol..

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008